# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(166)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 10 a 12 eu grwpio.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.04

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

### 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.09

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5370 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi ei bod yn adeg o newid o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol diwygio systemau.

2. Yn cydnabod:

a) y potensial i gydgynhyrchu wella cyflenwad gwasanaethau cyhoeddus yn sylweddol.

b) ymrwymiad presennol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan asedau sy'n eiddo cyhoeddus y potensial i aros mewn perchnogaeth gymunedol yng Nghymru.

3. Yn gresynu:

a) nad oes digon yn cael ei wneud i sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o gynlluniau megis Trosglwyddo Asedau Cymunedol neu'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.

b) bod Cymru yn methu â rhannu llwyddiant yr Agenda Anghenion Cymunedol mewn rhannau eraill o'r DU.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) hyrwyddo cydgynhyrchu fel ffordd hyfyw o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

b) archwilio dichonoldeb mabwysiadu agweddau pellach ar y Ddeddf Lleoliaeth yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 42 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o gynlluniau megis Trosglwyddo Asedau Cymunedol a'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.

b) datblygu polisi asedau cymunedol cynhwysfawr sydd wedi'i deilwra ar gyfer anghenion Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 41 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 4b) a rhoi yn ei le:

sicrhau bod yr agendâu lleoliaeth a throsglwyddo asedau cymunedol yn ddiamau yn grymuso cymunedau ac nad ydynt yn cael eu defnyddio fel ffordd o breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 41 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.05

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM5371 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn mynegi pryder ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Llwynhelyg.

2. Yn nodi'r effaith y byddai absenoldeb gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn ei chael ar wasanaethau craidd eraill yn yr ysbyty, megis gofal pediatrig a gofal brys.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) cymryd camau gweithredu brys i sicrhau dyfodol gwasanaethau craidd yn Llwynhelyg; a

(b) sicrhau bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cyfathrebu ei gynlluniau ar gyfer cyfeiriad strategol y gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg mewn modd effeithiol a diamwys.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

**6 Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.57

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5372 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi na fydd perfformiad Cymru yn erbyn PISA a mesuriadau perfformiad addysgol cenedlaethol a rhyngwladol eraill yn gwella digon i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru oni bai bod cyfraddau cyrhaeddiad disgyblion o gefndir difreintiedig yn gwella'n sylweddol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i athrawon, penaethiaid a staff cymorth newydd a phresennol ar ymyriad cynnar i wella

llythrennedd, rhifedd, presenoldeb ac ymddygiad er mwyn codi cyfraddau cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig.

3. Yn croesawu cytundeb cyllideb Plaid Cymru gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru i fwy na dyblu'r cyllid a roddir fesul plentyn drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cryfhau'r canllawiau ar y defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon i godi cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio; a

b) cryfhau'r broses o fonitro’r defnydd o’r Grant Amddifadedd Disgyblion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 18 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.44

## 7 Dadl Fer

Ni chyflwynwyd testun.

## 8 Dadl fer - aildrefnwyd o 25 Medi

Dechreuodd yr eitem am 17.54

**NDM5305 Julie James (Gorllewin Abertawe):** Manteision Canmlwyddiant Dylan Thomas i Gymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18:17

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2013**